

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid a Staff, 23/01/20

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), C.Larsen, S.Sage, M.Sarnacki, R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr I.C.Thomas, C.Williams

2. Datgan Buddiant Personol

Dim.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Wig i'r Clerc

Gan fod yr wig roedd y Clerc wedi ei dderbyn gan y cyn Glerc braidd yn fach iddo, nododd ei fod wedi derbyn pris ar gyfer wig newydd gan ddau gwmni.

Penderfynwyd, cyn gwneud penderfyniad i brynu wig newydd, gofyn i'r Clerc wneud ymchwil am faint mae'r traddodiad o'r Clerc i wigo wig wedi bodoli (unfrydol).

4. Materion Staffio

Gan fod Gwyneth yn ymddeol ddiwedd Chwefror, bod angen edrych ar sut fath o swydd fydd yn cael ei hysbysebu.

Amgaeëwyd y canlynol efo'r rhaglen:

(1) Gofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Personél, a gynhaliwyd ar y 13eg o Ionawr

Nodwyd fod y pwyllgor hwnnw wedi penderfynu:

".... argymhell i'r Pwyllgor Cyllid y dylid:

- (1) Derbyn y Swydd Ddisgrifiad / Manyleb Person ddiwygiedig ar gyfer y swydd Dirprwy Clerc (Atodiad A) fel y swydd y dylid ei hysbysebu.
- (2) Hysbysebu am swydd Dirprwy Clerc Llawn Amser ar raddfa cyflog 18 – 23, gyda'r hyblygrwydd i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar ganol y raddfa os ar gyflog cyffelyb yn barod.

- (3) Y dylai'r Panel Penodi gynnwys y Cynghorwyr W.Tudor Owen (fel Maer), C.Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Personél), M.Sarnacki (fel Dirprwy Faer) a'r Clerc (dim pleidlais).
- (4) Gofyn i'r Cynghorwyr I.C.Thomas, W.L.Davies ac E.Lovgreen fod wrth gefn (er mwyn sicrhau fod un benyw ar y panel)."

(2) Swydd Ddisgrifiad arfaethedig ar gyfer Dirprwy Glerc (Atodiad 'A' i'r cofnodion Pwyllgor Personél)

Nodwyd mai hon oedd y swydd y cyfeirir ati ym mhwynt (1) uchod.

(3) Y Graddfeydd Cyflog presennol

Ar sail graddfeydd NALC (National Association of Local Councils), dyma raddfeydd y gwahanol swyddi:

- Ysgrifenyddes – LC1 Band 8 o'r 1af Ebrill 2019, sef £19,945 Llawn Amser.
- Dirprwy Glerc Llawn Amser ar raddfa cyflog 18 – 23, sef £24,313 - £26,919

Penderfynwyd derbyn cofnod y Pwyllgor Personél (unfrydol) ac y dylid argymhell i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 4ydd o Chwefror:

- (1) Derbyn y Swydd Ddisgrifiad / Manyleb Person ddiwygiedig ar gyfer y swydd Dirprwy Glerc (Atodiad A) fel y swydd y dylid ei hysbysebu, ond y dylid diwygio "Mayor-making" i "Mayor-installation" yn y fersiwn Saesneg.**
- (2) Hysbysebu am swydd Dirprwy Glerc Llawn Amser ar raddfa cyflog 18 – 23, gyda'r hyblygrwydd i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar ganol y raddfa os ar gyflog cyffelyb yn barod.**
- (3) Y dylai'r Panel Penodi gynnwys y Cynghorwyr W.Tudor Owen (fel Maer), C.Williams (fel Cadeirydd y Pwyllgor Personél), M.Sarnacki (fel Dirprwy Faer) a'r Clerc (dim pleidlais).**
- (4) Gofyn i'r Cynghorwyr I.C.Thomas, W.L.Davies ac E.Lovgreen fod wrth gefn (er mwyn sicrhau fod un benyw ar y panel).**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____